Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Summergil House School

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg

## a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Summergil House School

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Summergil House School |
| Math o ysgol | Arbennig annibynnol |
| Perchennog | Orbis Education and Care |
| Ystod oed | 5 - 19 |
| Darpariaeth letya/breswyl | Preswyl |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn berthnasol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 20 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 14 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin | Ddim yn berthnasol |
| Nifer yn y chweched dosbarth | Ddim yn berthnasol |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol | 100% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Gorffennaf 2020 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | Ddim yn berthnasol |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 14 Mawrth 2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | Ysgol arbennig annibynnol yw Summergil House, sydd wedi'i lleoli ger y ffin rhwng Powys a Sir Henffordd yn Llanandras. Agorodd yr ysgol ym mis Mawrth 2017 ac mae dan berchenogaeth Orbis Education and Care. Mae'n rhan o bortffolio August Equity, sef cwmni buddsoddi ecwiti preifat.<br><br>Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 5 a 19 oed sydd â diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion arbennig neu gynllun addysg, iechyd a gofal (EHCP).<br><br>Ar hyn o bryd, mae 20 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol, y mae llawer ohonynt yn fechgyn. Caiff llawer o ddisgyblion eu lleoli gan awdurdodau lleol yn Lloegr a'r gweddill o Gymru. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Mae tua hanner y disgyblion yn ddisgyblion dydd ac mae tua hanner ohonynt yn byw yn y cartref cofrestredig i blant sydd ar y safle. |

| | |
|---|---|
| | Ers yr arolygiad monitro diwethaf ym mis Mai 2019, penodwyd pennaeth addysg newydd yng Ngorffennaf 2020. Mae gan yr ysgol bump o athrawon dosbarth a deg o gynorthwywyr cymorth dysgu. Yn ogystal, mae gweithwyr gofal o'r lleoliad preswyl yn cynorthwyo plant mewn gwersi a gweithgareddau, yn ôl yr angen. Mae tîm clinigol, sy'n cynnwys therapydd iaith a lleferydd, arbenigwr ymddygiad a therapydd galwedigaethol, yn cynorthwyo'r tîm addysg.<br><br>Nod yr ysgol yw darparu 'amgylchedd ysgol diogel a sicr sy'n annog unigolrwydd, hyder a hunan-barch'.<br><br>Dyma arolygiad craidd cyntaf yr ysgol ers ei chofrestru. |

## Crynodeb

Mae Summergil House School yn ysgol hapus a chroesawgar. Mae ei lleoliad gwledig, heddychol yn cael effaith gadarnhaol dros ben ar les disgyblion ac yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion wneud ymarfer corff, archwilio natur a hunanreoleiddio pan fydd angen iddynt wneud hynny.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod amrywiol briodol o brofiadau dysgu sy'n adlewyrchu ystod eang anghenion, galluoedd a diddordebau disgyblion. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â nhw. Dros amser, mae'r cymorth gofalgar hwn yn helpu llawer o ddisgyblion i ymgartrefu'n dda a gwneud cynnydd gwerthfawr o'u mannau cychwyn.

Gwna llawer o ddisgyblion gynnydd buddiol wrth ddatblygu eu medrau corfforol a daw'r rhan fwyaf ohonynt yn fwy annibynnol yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae diffygion yng nghynllunio athrawon ac ansawdd y cymorth dysgu yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud cynnydd o ran datblygu'r medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol y gallant eu cyflawni.

Er y daw mwyafrif y disgyblion yn ddysgwyr mwy llwyddiannus yn ystod eu hamser yn yr ysgol, nid yw'r lleiafrif ohonynt yn ymgysylltu â dysgu yn yr ystafell ddosbarth yn ddigon cyson. Mae hyn yn rhannol gan nad yw maint a nifer yr ystafelloedd dosbarth yn ddigonol i fodloni ystod eang anghenion cymhleth disgyblion. Yn ogystal, nid yw gwaith y tîm clinigol o ran cynorthwyo staff addysgu â rheoli ymddygiad a strategaethau cyfathrebu wedi'i gydlynu'n ddigon da.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo ethos gofalgar ar draws yr ysgol ac maent wedi meithrin perthynas waith gref â rhieni a gofalwyr a staff sy'n gweithio yn y lleoliad preswyl. Mae eu harweinyddiaeth bwyllog a phwrpasol wedi helpu'r ysgol i oresgyn heriau sylweddol yn ystod y pandemig, pan orfodwyd y cartrefi i gau ar sawl achlysur. Cydweithiodd staff o ochrau addysg a phreswyl y cwmni â'i gilydd yn adeiladol i ddarparu cymuned ofalgar a chefnogol i ddisgyblion ar hyd y cyfnod hwn. Fodd bynnag, nid yw prosesau sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant yn ddigon hunanfeirniadol ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar wella medrau athrawon a staff cymorth dysgu.

Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion arbennig annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a'r rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

**Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Er bod yr ysgol yn bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Sicrhau bod gwersi wedi'u cynllunio'n dda, bod dulliau addysgu yn effeithiol, bod gweithgareddau addas yn cael eu defnyddio a bod amser yn y dosbarth yn cael ei reoli'n effeithiol [1(3)c]
- Sicrhau bod athrawon yn dangos dealltwriaeth dda o ddoniau, anghenion a chyrhaeddiad blaenorol disgyblion, ac y caiff y rhain eu hystyried wrth gynllunio gwersi [1(3)d]
- Sicrhau bod digon o adnoddau yn yr ystafell ddosbarth, eu bod o ansawdd ac ystod ddigonol ac y cânt eu defnyddio'n effeithiol [1(3)f]
- Sicrhau bod athrawon yn darparu addysg sy'n galluogi pob disgybl mewn dosbarth i wneud cynnydd, gan gynnwys disgyblion sydd â datganiad a'r rhai y mae'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt [1(5)]

**Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Er bod yr ysgol yn bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Baratoi a gweithredu polisïau ysgrifenedig i hyrwyddo a diogelu lles plant yn yr ysgol sy'n cydymffurfio ag arweiniad Llywodraeth Cymru [3(2)b]
- Cadw cofrestr derbyniadau a phresenoldeb yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 [3(9)]

**Addasrwydd perchnogion a staff**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Er bod yr ysgol yn bodloni bron pob un o'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Ddarparu ystafelloedd dosbarth o faint priodol i ganiatáu addysgu effeithiol [5(j)]

**Darparu gwybodaeth**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

A1 Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, gan gynnwys gwneud newid perthnasol i gofrestriad yr ysgol i gwmpasu'r defnydd dros dro o fannau addysgu ychwanegol

A2 Cryfhau cynllunio ac addysgu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion

A3 Sicrhau bod maint a nifer yr ystafelloedd dosbarth yn bodloni anghenion disgyblion

A4 Sicrhau bod trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu yn canolbwyntio ar wella'r ysgol a gwella ansawdd yr addysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Gan nad yw'r ysgol yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer cofrestru, bydd yn ofynnol gan Senedd Cymru i'r perchennog gyflwyno cynllun gweithredu cyn pen cyfnod penodedig. Bydd y cynllun hwn yn amlinellu'r camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd i fodloni'r safonau a'r amserlen ar gyfer cwblhau pob cam.

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio ei gynllun datblygu cyfredol i ddangos pa gamau mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd er mwyn ymateb i'r argymhellion. Mae hefyd yn ddoeth anfon y cynllun hwn neu grynodeb ohono at bob rhiant/gofalwr yn yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn ymuno â’r ysgol ar ôl cyfnodau o darfu ar eu haddysg. Mae cymhlethdod eu hanghenion yn golygu eu bod yn aml yn cael trafferth â dysgu ffurfiol ac amgylchedd yr ystafell ddosbarth ac mae angen amser arnynt i bontio’n llwyddiannus i’r ysgol. Dros amser, mae llawer o ddisgyblion sy’n ymuno â’r ysgol yn ymgartrefu’n dda, yn meithrin perthynas adeiladol â’r staff â’u cyfoedion ac mae’r mwyafrif ohonynt yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn eu dysgu. Mae hyn yn eu cynorthwyo’n dda i gaffael y medrau y bydd eu hangen arnynt i fod yn fwy annibynnol yn eu bywydau yn y dyfodol.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gwna llawer o ddisgyblion gynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu’n briodol yn unol â’u gallu. Er enghraifft, maent yn ymarfer ffurfio llythrennau, yn annibynnol neu â chymorth tros law, ac yn cwblhau brawddegau byr drwy lenwi’r bylchau gan ddefnyddio sbardunau gweledol i’w hysgogi. Mae disgyblion mwy abl yn gwella cyflwyniad ac atalnodi eu gwaith ar lefel sy’n briodol i’w hoed a’u gallu.

Mewn gwersi, mae ychydig o ddisgyblion yn darllen yn gymwys o’r bwrdd neu’r bwrdd gwyn rhyngweithiol. Mae disgyblion iau yn dilyn cyfres o gyfarwyddiadau o daflenni tasgau neu’n ymarfer darllen brawddegau byr o’u llyfr darllen.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau sy’n eu cynorthwyo’n briodol i fyw bywydau mwy annibynnol. Er enghraifft, maent yn dysgu i ddweud yr amser, yn ymarfer adnabod darnau arian ac yn mesur a chofnodi maint gwrthrychau cyffredin o gwmpas y safle. Mae disgyblion hŷn, mwy abl yn defnyddio cyfrifianellau’n hyderus. Gwnânt gynnydd addas wrth gyfrifo tebygolrwyddau damcaniaethol ac maent yn deall sut mae’r rhain yn cymharu â thebygolrwyddau a welir wrth gynnal arbrofion.

Mae ychydig o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau digidol yn briodol pan gânt gyfleoedd i wneud hynny. Er hynny, maent yn defnyddio rhaglenni prosesau geiriau yn hyderus. Mae disgyblion iau yn defnyddio’r bwrdd gwyn rhyngweithiol i glicio a llusgo lluniau mewn gweithgareddau cyfatebu.

Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn gynyddol ar draws eu meysydd dysgu wedi’u datblygu’n ddigonol. Mae’r diffyg cynllunio cydlynus i ddatblygu’r medrau hyn yn cyfyngu’r cynnydd a wneir gan ddisgyblion yn y meysydd hyn.

Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu’n addas yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn cyfathrebu’n barchus â’u staff ac, yn unol â’u gallu, yn ymateb yn gwrtais mewn sgwrs ag ymwelwyr â’r ysgol. Mae disgyblion y mae angen cymorth arnynt i gyfathrebu yn defnyddio symbolau i ddewis byrbrydau a lluniau yn ystod amser cinio ac amser egwyl. Mewn gwersi, mae’r mwyafrif ohonynt yn gwrando’n dda ar gyfarwyddiadau staff ac yn ymateb yn briodol i'w harweiniad.

Fodd bynnag, mae amrywioldeb yn nefnydd y staff addysgu o holi ac arwyddion a symbolau i gefnogi anghenion cyfathrebu disgyblion yn golygu nad yw disgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n gyson mewn meysydd sy'n benodol i'w dysgu cystal ag y gallant. Hefyd, mae cyfleoedd cyfyngedig mewn gwersi i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cyfathrebu mewn rhyngweithiadau â'i gilydd neu ymarfer gwrando ar ei gilydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol drwy gyfleoedd cynlluniedig gwerthfawr i fanteisio ar weithgareddau fel ioga, nofio a marchogaeth fel rhan o'u hamserlen. Gallant ddefnyddio tir yr ysgol yn rheolaidd i gwblhau cylchdeithiau synhwyraidd, cyrsiau rhwystrau mwdlyd neu fod yn aelodau o'r gampfa leol. Maent yn gwella eu medrau echddygol manwl yn addas drwy weithgareddau fel naddu pren gwyrdd i wneud hudlathau a chyfleoedd buddiol i ymarfer ffurfio llythrennau a rhifau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella eu medrau annibyniaeth yn fwriadol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn gwella eu medrau gofal personol ac yn dysgu i baratoi prydau syml. Mae disgyblion mwy abl yn cwblhau gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth drwy weithio'n annibynnol neu gydag ychydig iawn o gymorth, er enghraifft mewn sesiynau gwaith coed. Mae disgyblion hŷn yn manteisio ar gyfleoedd profiad gwaith gwerthfawr mewn garej, fel rhan o dîm cynnal a chadw'r ysgol neu mewn stabl leol.

Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn cyflawni ystod o unedau achredu mewn meysydd sy'n adlewyrchu eu hanghenion, eu galluoedd a'u diddordebau'n dda, ar y cyfan. Mae hyn yn cynnwys meysydd fel crefftau coetir, llythrennedd a rhifedd, gofalu am anifeiliaid, perthnasoedd iach, cyflogadwyedd a ffotograffiaeth.

Dros y tair blynedd diwethaf, wrth adael yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi symud ymlaen i leoliadau byw â chymorth, gwasanaethau dydd neu wedi dychwelyd adref i fyw â'u teuluoedd. Mae ychydig o ddisgyblion wedi dychwelyd i ysgolion prif ffrwd o ganlyniad i'r cynnydd a wnânt yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lleoliad gwledig ac amgylchedd tawel yr ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r lle'n effeithiol i reoleiddio eu hymddygiad a'u teimladau ac i baratoi eu hunain i ailymgysylltu â'u dysgu. Maent yn cydnabod pan fydd angen iddynt gymryd seibiant byr oddi wrth ddysgu, sy'n eu helpu i reoli eu hemosiynau. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu hymddygiad yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn ymgartrefu mwy ac yn datblygu ymdeimlad o berthyn o ganlyniad i'r cymorth gofalgar a gânt gan yr ysgol. O ganlyniad, maent yn cynnal eu lleoliadau yn yr ysgol yn llwyddiannus, er gwaethaf cyfnod o addysg amharedig cyn ymuno â'r ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn awyrgylch cyffredinol dawel yr ysgol.

At ei gilydd, mae disgyblion yn barchus ac yn gwrtais ac mae'r mwyafrif ohonynt yn rhyngweithio'n hyderus ag oedolion ac ymwelwyr. Mae llawer ohonynt yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â'r staff. Fodd bynnag, mae disgyblion yn cael llai o

gyfleoedd strwythuredig i gydweithio â'i gilydd ac, o ganlyniad, nid yw perthnasoedd rhwng cyfoedion wedi'u datblygu cystal.

Mae ychydig o ddisgyblion, yn berthynol i'w hanghenion a'u galluoedd, yn dangos ymwybyddiaeth emosiynol ddatblygedig ac mae ganddynt yr hyder i fynd at oedolion i fynegi eu barn a'u pryder tuag at ddisgyblion eraill. Er enghraifft, maent yn rhoi gwybod i aelod staff pan maent yn credu bod disgybl arall yn teimlo'n drist. Mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu clywed ac yn gwerthfawrogi bod staff ar gael i roi o'u hamser iddynt.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau drostynt eu hunain, er enghraifft drwy ddewis pa weithgareddau i gymryd rhan ynddynt yn ystod diwrnod y mabolgampau neu benderfynu ar fentrau gwyrdd, fel plannu coed i greu drysfa. Mae disgyblion hŷn yn dewis pa brydau yr hoffent ddysgu eu coginio, yn prynu cynhwysion ac yna'n paratoi eu prydau eu hunain. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth ffurfiol yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfranogi'n frwd mewn ystod werthfawr o weithgareddau ar y safle ac i ffwrdd o'r safle. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn ioga, trampolinio neu nofio. Mae disgyblion yn mwynhau'r gweithgareddau hyn, sy'n eu helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i fyw bywyd iach.

Mae llawer o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau elusennol, er enghraifft teithiau cerdded noddedig i gopa Pen-y-fan. Yn ddiweddar, maent wedi cefnogi taith gerdded rithiol o Kiev i Warsaw er mwyn helpu deall y llwybr y mae ffoaduriaid yn ei ddilyn a chodi arian ar eu cyfer o ganlyniad i'r rhyfel yn Wcráin. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall eu hymdeimlad o ddinasyddiaeth a'u lle yn y byd.

Dros gyfnod, mae mwyafrif y disgyblion yn caffael agweddau ac ymddygiad sy'n eu helpu i ddod yn ddysgwyr mwy llwyddiannus. Mae'r mwyafrif ohonynt yn cynyddu eu goddefgarwch o'r ystafell ddosbarth ac yn dangos lefelau cynyddol o ymgysylltiad â gweithgareddau a thasgau, ac yn dysgu i ddathlu eu cyflawniadau. Yn benodol, mae disgyblion mwy abl yn dod yn fwyfwy annibynnol yn eu gwaith, yn dangos gwydnwch wrth ddatrys problemau ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau.

Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn ei chael hi'n anodd aros yn yr ystafell ddosbarth ac nid ydynt yn ymgysylltu â'u dysgu am gyfnodau estynedig bob tro. Yn ogystal, nid yw ychydig o ddysgwyr yn mynychu gwersi amserlenedig yn gyson. O ganlyniad, nid yw'r dysgwyr hyn yn gwneud yr un cynnydd yn eu dysgu â'u cyfoedion.

Oherwydd pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystod darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb yn rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu sy'n adlewyrchu'n addas y dyheadau a'r egwyddorion sydd wedi'u hamlinellu yn ei bolisi ar y cwricwlwm. Mae'r

cwricwlwm wedi'i drefnu'n briodol yn bedwar llwybr sy'n adlewyrchu ystod eang oedrannau, anghenion a galluoedd y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol. Mae'r ystod amrywiol hon o brofiadau dysgu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r medrau perthnasol i gynorthwyo a pharatoi disgyblion yn briodol ar gyfer pontio i amrywiaeth o gyrchfannau posibl ar ôl gadael yr ysgol.

Er mwyn gwella a hyrwyddo medrau annibyniaeth dysgwyr, mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau effeithiol â busnesau lleol a chyfleusterau hamdden cymunedol. Mae'r cysylltiadau hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr gymhwyso ac ymarfer eu medrau i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn mynychu atyniadau lleol sy'n cael eu rhedeg gan ymddiriedolaethau elusennol i gymryd rhan mewn prosiectau cynnal a chadw. Yn ogystal, mae partneriaeth â stabl leol yn cynnig lleoliadau gwaith i ddisgyblion hŷn, sy'n cynorthwyo i ddatblygu eu medrau annibyniaeth a'u medrau gwaith. Mae ystod o brofiadau gwaith ystyrlon ar y safle, fel lleoliad â thîm cynnal a chadw'r safle, yn gwella datblygiad y medrau hyn ymhellach.

Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) effeithiol, sydd wedi'i chefnogi gan adnoddau digidol sydd wedi'u haddasu'n briodol ar gyfer anghenion pob disgybl. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth fuddiol o bwysigrwydd ffyrdd egnïol o fyw, dewisiadau iach a pherthnasoedd cadarnhaol. Er enghraifft, caiff disgyblion eu hannog i gofrestru mewn campfa leol, ac mae llawer ohonynt yn mwynhau gwneud ymarfer corff rheolaidd a datblygu dealltwriaeth o effaith gadarnhaol ymarfer corff ar eu hiechyd a lles.

Mae athrawon yn cynllunio ystod amrywiol o brofiadau a chyfleoedd dysgu yn yr ystafell ddosbarth i gynorthwyo i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio'r ardaloedd awyr agored helaeth yn briodol i helpu disgyblion i hunanreoleiddio ac i gyfoethogi'r cyfleoedd dysgu sy'n cael eu cynnig yn yr ystafelloedd dosbarth. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio'n gyson i wneud y defnydd gorau o'r adnodd hwn i ymestyn dysgu, yn enwedig i'r disgyblion hynny sy'n cael trafferth goddef yr ystafell ddosbarth.

At ei gilydd, nid yw cynllunio athrawon yn ddigon manwl ac nid yw'n nodi cyfleoedd i ddatblygu medrau'n gynyddol ar draws y meysydd dysgu. Yn ogystal, nid yw athrawon yn defnyddio deilliannau asesiadau disgyblion unigol yn ddigonol wrth gynllunio gweithgareddau. O ganlyniad, nid yw llawer o weithgareddau'n cynnig her briodol na chyfle i adeiladu ar brofiadau a dysgu blaenorol disgyblion.

Mae gan y rhan fwyaf o'r athrawon a'r staff cymorth dysgu ddealltwriaeth dda o anghenion a diddordebau'r disgyblion maent yn eu cynorthwyo. Maent yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â disgyblion, yn cynnig sicrwydd ac adborth llafar canologol ac yn dathlu cyflawniadau disgyblion mewn ffyrdd sy'n ystyrlon i bob unigolyn. Mae'r dull empathetig hwn yn helpu disgyblion â'u rheoleiddio emosiynol ac, ym mwyafrif yr achosion, yn eu cynorthwyo i ymgysylltu â'u dysgu'n fwriadus.

Fodd bynnag, mewn tua hanner y gwersi, mae diffygion o ran ansawdd cymorth dysgu a chyfyngiadau ffisegol yr ystafelloedd dosbarth yn cael effaith negyddol ar ansawdd yr addysgu a'r cymorth i ddysgwyr. Er enghraifft, nid yw athrawon a staff cymorth yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio'r systemau cyfathrebu yn eu cynlluniau personol. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn ei chael hi'n anodd

cyfrannu at wersi, gwneud penderfyniadau annibynnol neu fynegi eu hoffterau. Yn ogystal, nid yw nifer a maint yr ystafelloedd dosbarth yn ddigonol i fodloni anghenion disgyblion yn yr ysgol.

Un o gryfderau'r ysgol yw ansawdd yr adroddiadau i rieni, gofalwyr a rhanddeiliaid ar gynnydd eu plant. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi diweddariadau diddorol ac addysgiadol ar brofiadau cwricwlaidd ac, yn bwysig, yn cynnwys barnau a safbwyntiau'r disgyblion ar eu cynnydd eu hunain a'u dyheadau, lle bo hynny'n bosibl.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Summergil House School yn ysgol hapus a chroesawgar. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn meithrin perthynas waith ymddiriedus ac effeithiol â nhw.

Mae'r ysgol yn cynnig cymorth ac arweiniad effeithiol i ddisgyblion i'w paratoi ar gyfer y camau nesaf yn eu bywydau. Er enghraifft, mae'n cynllunio ac yn cyflwyno rhaglen ABCh lwyddiannus, ynghyd â'r rhaglen gwasanaethau ehangach. Mae'r sesiynau hyn yn cynnig ystod gynhwysfawr o wybodaeth fuddiol i ddisgyblion sy'n briodol i'w hoedran a'u hanghenion, gan gynnwys meysydd pwysig fel radicaleiddio, rhyw a pherthnasoedd iach a diogelwch ar-lein.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o asiantaethau allanol i gynnig cymorth gwerthfawr i ddisgyblion mewn agweddau ar addysg, fel addysg rhyw a pherthnasoedd. Mae'r asiantaethau hyn, sy'n cynnwys yr heddlu lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol, ynghyd â'r tîm clinigol ar y safle, yn darparu offer gwerthfawr i alluogi disgyblion i gyfathrebu am yr agweddau mwy sensitif ar eu haddysgu, gan gynnwys mastyrbio a'r misglwyf.

Mae'r ysgol yn creu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol oddi mewn i'r rhaglen ABCh a gwasanaethau. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas a dealltwriaeth o bobl lai ffodus na nhw. Mewn gwersi ac o gwmpas y safle, mae disgyblion yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr, beth bynnag fo'u rhywedd, hil neu anghenion ychwanegol.

Mae Summergil House yn darparu cynlluniau personol defnyddiol, cyfredol i bob disgybl sy'n cael eu rhannu â'r staff perthnasol a rhieni. Mae'r timau addysg, gofal a chlinigol yn cydweithio â'i gilydd i lunio'r cynlluniau hyn, sy'n cynnwys cyfraniadau gwerthfawr gan rieni a gofalwyr a'r disgyblion eu hunain. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys ystod o strategaethau gwerthfawr sy'n canolbwyntio'n briodol ar feysydd fel dulliau cyfathrebu effeithiol a medrau bywyd. Fel rhan o'r cynlluniau hyn, ceir cynlluniau ymddygiad cadarnhaol manwl hefyd sy'n amlinellu strategaethau addas i gynorthwyo disgyblion i hunanreoleiddio. Fodd bynnag, mae'r modd y caiff strategaethau rheoli ymddygiad a chyfathrebu dynodedig eu cymhwyso ar draws yr ysgol yn anghyson. At ei gilydd, nid yw'r cymorth gan y tîm clinigol o ran hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o'r strategaethau hyn wedi'i gydlynu'n ddigon da. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi penodi ymarferydd awtistiaeth newydd i ddatblygu ei harfer yn y maes hwn. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r gwaith hwn ac mae'n rhy gynnar i fesur ei effaith.

Mae'r ysgol yn meithrin ac yn cynnal perthynas gefnogol â rhieni a gofalwyr. Mae'n cadw mewn cysylltiad â rhieni a gofalwyr disgyblion dydd gan ddefnyddio dyddiadur rhwng y cartref a'r ysgol, ac mae pob rhiant, gofalwr a rhanddeiliad yn cael neges e-bost wythnosol sy'n cynnwys manylion am yr hyn sydd wedi digwydd mewn addysg yn ystod yr wythnos. Mae'r negeseuon e-bost hyn yn cynnig cyfle gwerthfawr i'r ysgol ddathlu llwyddiannau a chyflawniadau disgyblion.

Mae'r ysgol yn cofnodi presenoldeb yn gyson. Fodd bynnag, nid yw'r presenoldeb a gofnodwyd adeg yr arolygiad yn cyfateb i niferoedd y disgyblion a welwyd mewn gwersi. Yn ogystal, nid yw presenoldeb yn cael ei ddadansoddi ar lefel ysgol gyfan ac nid yw monitro ymgysylltiad â dysgu mewn gwersi wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau bod disgyblion yn ddiogel. Er enghraifft, mae'n rhoi gwybodaeth berthnasol, briodol i staff a disgyblion am sut i gadw eu hunain yn ddiogel ym mhob sefyllfa, gan gynnwys diogelwch ar-lein. Mae ei threfniadau ar gyfer recriwtio staff yn ddiogel yn gadarn. Mae arweinwyr yn annog yr holl staff i ddeall eu cyfrifoldeb i ddarparu amgylchedd diogel i ddisgyblion sydd ag ystod eang o anghenion amrywiol a chymhleth.

Fodd bynnag, er bod polisïau'n cynnwys arweiniad clir i staff ar ddefnyddio ffonau symudol personol ar y safle, nid yw hyn yn cael ei fonitro'n ddigon gofalus. Yn ogystal, nid yw diogelwch perimedr yr ysgol na'r trefniadau rheoli traffig yn sicrhau diogelwch disgyblion, staff ac ymwelwyr â'r ysgol. Felly, nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn ddigon cadarn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ethos gofalgar sy'n cefnogi anghenion llawer o ddisgyblion ag ystod eang o anghenion cymhleth a galluoedd yn llwyddiannus. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi wynebu llawer o anawsterau, gan gynnwys yr heriau sylweddol a wynebwyd ar wahanol adegau o'r pandemig, pan orfodwyd ochr breswyl yr ysgol i gau ar fwy nag un achlysur yn dilyn cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae staff o ochrau addysg a phreswyl y cwmni, fel ei gilydd, wedi cydweithio'n adeiladol â'i gilydd i ddarparu cymuned ofalgar a chefnogol i ddisgyblion trwy gydol y cyfnod hwn.

Mae gan y pennaeth addysg a'r dirprwy bennaeth addysg drefniadau effeithiol i sicrhau bod yr ysgol yn rhedeg yn rhwydd. Maent i'w gweld o gwmpas yr ysgol o ddydd i ddydd, maent yn adnabod ac yn deall anghenion eu disgyblion yn dda ac yn cynnig cymorth gwerthfawr i'r staff addysgu. Maent wedi meithrin perthynas gref a chynhyrchiol â rhieni ac awdurdodau lleoli. Maent yn cyfathrebu â rhieni'n rheolaidd, gan roi diweddariadau wythnosol ar gynnydd eu plant a gwrando ar eu safbwyntiau ac ymateb yn briodol iddynt.

Mae'r cyfarwyddwr addysg yn cynnig cyngor, cymorth a her fuddiol i'r ysgol. Mae'n adnabod yr ysgol yn dda ac mae ganddi ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r cyfarwyddwr addysg yn chwarae rhan bwysig mewn gosod blaenoriaethau strategol hirdymor yr ysgol ac adrodd yn ôl i'r perchenogion ar gynnydd yr ysgol. Mae cyfleoedd rheolaidd i'r cyfarwyddwr addysg gyfarfod ag arweinwyr yr ysgol i drafod perfformiad yr ysgol a chynllunio camau gweithredu i fynd i'r afael â blaenoriaethau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mewn

ychydig o feysydd, mae'r dulliau adrodd, fel strwythur adroddiadau llywodraethu, yn golygu nad yw'r trafodaethau hyn yn ystyried blaenoriaethau datblygu tymor byr a chanolig yr ysgol yn ddigon da.

Mae gan yr ysgol gylch sefydledig o weithgareddau sicrhau ansawdd i'w helpu i werthuso ei gwaith. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys adroddiadau llywodraethu rheolaidd i gyfarwyddwr addysg yr ysgol, arsylwadau gwersi, craffu ar waith a theithiau dysgu. At ei gilydd, mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi trosolwg gwerthfawr i arweinwyr o waith yr ysgol ac yn eu helpu i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella yng nghynllun gwella'r ysgol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae'r dull y mae'r ysgol yn ei ddefnyddio wedi'i seilio ar ddangos cydymffurfiad, yn hytrach na rhoi gwerthusiad manwl o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y mae angen ei wella. Mae hyn yn golygu bod asesiad arweinwyr o waith yr ysgol yn rhy hael ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigon da ar nodi meysydd i'w gwella.

Yn yr un modd, nid yw camau gweithredu i gyflawni blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn ddigon manwl ac nid ydynt yn nodi'r goblygiadau o ran adnoddau a'r amserlenni ar gyfer eu cyflawni yn ddigon da. Yn ogystal, nid yw'r ysgol yn monitro cynnydd yn erbyn ei flaenoriaeth gwella yn ddigon beirniadol. Nid yw'n ystyried newidiadau i'r tîm addysgu nac yn sicrhau ei fod yn ailedrych ar feysydd i'w gwella i sicrhau bod gan yr holl staff y medrau a'r arbenigedd sydd eu hangen arnynt i gefnogi dysgu disgyblion.

Mae'r ysgol yn cyflogi tîm addysgu bach sy'n cael ei gefnogi gan dîm mwy o gynorthwywyr cymorth dysgu a staff cymorth o'r ddarpariaeth breswyl. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi wynebu newidiadau i'r tîm hwn ac, yn hollbwysig, heriau o ran recriwtio a chadw staff cymorth addysgu â chymwysterau a phrofiad addas.

Mae staff yn gwerthfawrogi'r rhaglen dysgu proffesiynol y mae'r ysgol yn ei chynnig. Mae'n canolbwyntio'n dda ar sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant gorfodol sydd eu hangen arnynt i gefnogi eu rolau wrth weithio mewn lleoliad preswyl arbenigol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oes digon o bwyslais ar sicrhau bod y rhaglen hon yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth athrawon o fedrau craidd addysgu disgyblion ag ystod eang o anghenion cymhleth ar draws y cwricwlwm, na rôl cynorthwywyr dysgu o ran cynorthwyo athrawon.

Mae lleoliad yr ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion wneud ymarfer corff, archwilio natur a hunanreoleiddio, fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, nid yw maint a nifer yr ystafelloedd dosbarth yn bodloni ystod eang o anghenion nifer gynyddol y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol bellach, yn ôl eu hoed a'u gallu. Yn ogystal, nid yw ychydig o'r ardaloedd yn yr amgylchedd awyr agored yn cynnig ardaloedd croesawgar ag adnoddau da ar gyfer dysgu.

Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Yn ogystal, mae'r ysgol yn defnyddio rhan o'i safle ar hyn o bryd nad oes ganddi ganiatâd i'w defnyddio gan Lywodraeth Cymru.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr/perchenogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn cynnal amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle y bo'n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu gan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfiad â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  19/05/2022